**Eitem:** 18b

**Teitl:** Llais: Hyrwyddo ein gweithgareddau a bod yn hygyrch i bobl Cymru (Ebrill 2023-Mawrth 2024)

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I nodi a thrafod |
| **Amseru / Timing** | Adroddiad blynyddol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Amh |
| **Risg / Risk** | Ni nodwyd dim |
| **Cyllid / Finance** | Ni nodwyd dim |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective/Amcan Rhaglen/ Programme objective** | Blaenoriaethau Hydref 2023-Mawrth 2024 - Blaenoriaeth 2: Meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwneud gwahaniaeth.<br>Blaenoriaeth 3: Ei gwneud hi'n hawdd cysylltu â chi a'n partneriaid, trwy fod yn hygyrch ac yn gynhwysol. |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Nid oes angen asesiad effaith integredig |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Ben Eaton, Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| **Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Efallai fod trafodaethau wedi eu cynnal wrth i Llais gael ei sefydlu gan fod hyrwyddo ein gweithgareddau, yr hyn rydym yn ei wneud ac ati yn un elfen o'n swyddogaeth graidd. |
| **Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting** | Charysse Harper/Mwoyo Makuto |
| **Dyddiad / Date** | Medi 2024 |

## Cefndir

' Rydyn ni eisiau i bawb sy'n byw yng Nghymru wybod pwy ydyn ni, beth rydyn ni'n ei wneud a'r gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud. Rydym am i'n gweithgareddau a'n gwasanaethau fod yn hawdd cael gwybod amdanynt. Rydym am i bawb allu cael mynediad i'n gwasanaethau a rhannu eu barn a'u profiadau gyda ni yn hawdd, yn y ffordd sy'n diwallu eu hanghenion unigol orau' ( *Datganiad Hygyrchedd Llais, Ebrill 2023* ).

Nod y papur hwn yn wreiddiol oedd ymdrin â hyrwyddo gweithgareddau Llais a sut rydym wedi sicrhau ein bod yn hygyrch i bobl Cymru, yn cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2023 i Fawrth 2024.

Fodd bynnag, oherwydd gorgyffwrdd sylweddol ag Adroddiad Blynyddol 2023-24, bydd y papur hwn nawr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau allweddol perthnasol yr ydym wedi'u cyflawni i gynyddu ein hygyrchedd digidol yn ein blwyddyn gyntaf, sut rydym wedi datblygu ein Datganiad Hygyrchedd Digidol newydd a'n camau nesaf pan ddaw i'n llwyfannau digidol a'n cynnwys.

## Manylion / Detail

# Hygyrchedd Digidol yn 2023-2024

## Cyhoeddiadau a deunyddiau

Mae rhoi gwybod i bobl pwy ydym ni yn hanfodol i lwyddiant ein sefydliad wrth gasglu barn a phrofiadau pobl o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cynhyrchu taflenni, posteri, ac adroddiadau mewn iaith bob dydd i wneud yn siŵr eu bod yn haws i gynifer o bobl â phosibl eu deall.

Yn ystod mis Chwefror 2024, derbyniodd staff o dimau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gyfrifol am gyfathrebu, ymgysylltu a thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant hyfforddiant gan Anabledd Dysgu Cymru i roi'r sgiliau angenrheidiol iddynt gynhyrchu dogfennaeth mewn ffyrdd mwy hygyrch gan gynnwys Hawdd ei Ddeall. Rydym yn parhau i weithio gydag Anabledd Dysgu Cymru i wella ein dealltwriaeth.

Mae hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn gan y bydd ein dogfennau allweddol ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar ein gwefan wrth i ni eu datblygu i gynyddu hygyrchedd cychwynnol.

## Gweithgareddau ar-lein

Fel y nodwyd yn ein papur ym mis Ebrill 2024 'Archwiliad a Gwelliant Hygyrchedd ein Gwefan', cynhaliwyd archwiliad o'n gwefan gan Dig Inclusion yn erbyn Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG) 2.2 AA.

Yn dilyn y papur hwnnw, buom yn gweithio gyda Dig Inclusion i unioni unrhyw faterion sy'n weddill o'r wefan a chawsom ein marc pasio terfynol.

Fel rhan o'r gwaith hwnnw, rydym wedi parhau i drafod meysydd a nodwyd yn yr archwiliad yn ymwneud â meddalwedd Engagement HQ. Mae Engagement HQ wedi darparu eu hadroddiad archwilio hygyrchedd i ni ac fel rhan o'u gwaith parhaus byddant yn gweithredu unrhyw feini prawf newydd a amlinellir yn y diweddariadau WCAG 2.2 (Hydref 2023) yn chwarter 1 2024.

# Adolygu ein Datganiad Hygyrchedd

Cynhaliwyd adolygiad o'n datganiad Hygyrchedd presennol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiadau a wnaethom pan gawsom ein sefydlu gyntaf. Mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth y cyhoedd a'n polisi sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo ac ymgysylltu â phobl Cymru yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).

Mae’r datganiad ei hun yn parhau i fod yn addas i’r diben ac yn rhoi trosolwg eang o sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau. Nid oedd angen unrhyw ddiwygiadau.

Fodd bynnag, mae'n arfer da sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad at ddatganiad hygyrchedd safonol yn unol â Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe 2.2. AA . Mae'r trosolwg byr hwn yn galluogi pobl i gael y wybodaeth angenrheidiol am hygyrchedd a mynediad i'n sefydliad trwy lens ddigidol.

O’r herwydd, mae ein Datganiad Hygyrchedd Digidol Llais newydd (Atodiad A) yn lleihau faint o destun rydym yn gofyn i bobl ei ddarllen tra’n rhoi gwybod iddynt sut rydym yn cyflawni (ac yn mynd y tu hwnt) i’n dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â’n cynnwys gwe.

Mae’n cysylltu â’n ffrydiau gwaith presennol drwy’r Cynllun Strategol 2024-2027 a’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028. Mae hyn yn golygu ein bod yn cynnal trywydd o ba mor bwysig yw hygyrchedd yn ein holl swyddogaethau.

Bydd yn cael ei ddiweddaru’n flynyddol fel y gallwn olrhain ein cynnydd, ac anogir pobl i rannu eu barn ar sut y gallant ymgysylltu â ni yn y ffyrdd sy’n gweithio orau iddyn nhw.

## Ein camau nesaf

Fel rhan o’n hygyrchedd digidol, rydym yn parhau i weithio gydag S8080, Engagement HQ a phartneriaid allanol i sicrhau ein bod yn cael gwared ar rwystrau ac yn gweithio mewn ffyrdd sy’n galluogi pobl i gael mynediad at ein cynnwys mewn ffyrdd sy’n addas i’w hanghenion.

Fel rhan o’n hymgyrch gwirfoddolwyr, mae tudalen gwirfoddolwyr pwrpasol ( Dod yn wirfoddolwr | LLais (llaiscymru.org) ) wedi’i hychwanegu at y brif wefan. Mae’r Tîm Cyfathrebu, Mewnwelediadau ac Ymgysylltu yn cynnal adolygiad ehangach o’r wefan, a fydd yn debygol o ddarparu newidiadau mwy, yn seiliedig ar adborth a dysgu o 12 mis olaf y wefan yn fyw.

Yn ogystal â’r uchod, rydym mewn sgyrsiau gyda dau ddarparwr allanol am offer a gwasanaethau ychwanegol y gallwn eu defnyddio.

Yn gyntaf, bar offer cynorthwyol sy'n cynnwys offer fel datganiadau tudalen, ystod ehangach o themâu lliw, crynodeb o’r dudalen, ac acronym a geiriadur mewnol i gynorthwyo dealltwriaeth defnyddwyr.

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Byddai hyn yn darparu opsiwn haws ei ddefnyddio i unrhyw un sydd â gofynion hygyrchedd ac mae'n adeiladu ar adborth gan ein pobl bod angen i'r opsiynau hyn fod yn fwy gweladwy ar ein gwefan (diwrnod staff a gweithgorau mewnol).

Yn ail, gwasanaeth dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a fyddai'n caniatáu i unrhyw un sydd angen cyfieithydd ddefnyddio eu dyfais eu hunain i siarad â ni o'u cartref eu hunain neu ddefnyddio gwasanaethau fideo lle'r ydym yn cyfathrebu â rhywun yn bersonol.

Byddai hyn yn caniatáu i'n gwasanaeth fod yn llawer mwy hygyrch i bobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw na allant bob amser gyfathrebu yn Gymraeg/Saesneg neu drwy e-bost ac yn golygu y gall pobl gyfathrebu yn eu hiaith gyntaf o'i dewis. Mae hyn wedi'i argymell gan RNID a'r Ganolfan Sign-Sight-Sound a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i sicrhau ein bod yn edrych ar ystod o opsiynau yn ein gwaith ehangach.

Rydym hefyd yn bwriadu cynhyrchu trosolwg cryno o'n papurau allweddol ee mae'r Bwrdd yn defnyddio technoleg fel Synthasia i greu cynnwys fideo sy'n fwy hygyrch i ystod ehangach o gynulleidfaoedd.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried gofynion BSL a chydymffurfiad â'n Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar sut y gallwn wella ein cynnwys fideo i sicrhau tegwch rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ee, pan fo'n briodol defnyddio isdeitlau/dybio.

Mae templedi ysgrifennu adroddiadau yn cael eu cynhyrchu gan y Tîm Cyfathrebu, Mewnwelediad ac Ymgysylltu i sicrhau cysondeb. Gofynnwyd i bob tîm ystyried gwahanol ffyrdd o adrodd ar wybodaeth wrth symud ymlaen ee ffeithluniau, fideos, adroddiadau ysgrifenedig ac ati a sut y gellir defnyddio gwahanol fathau o adrodd i gyfleu effaith y gwaith a wneir.

Bydd y rhain yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'n Safonau Cyhoeddi presennol.